**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

10 Mai 2022

Annwyl Weinidog,

Yn ein cyfarfod ar 28 Ebrill 2022, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid i lywio’n gwaith parhaus o ddatgarboneiddio tai. Yn ystod y sesiynau, soniwyd am bwysigrwydd gwella effeithlonrwydd ynni cartref fel modd o leihau costau ynni. Yn dilyn y cyfarfod, trafodwyd y cynnydd dramatig mewn costau ynni’n ddiweddar o ganlyniad i’r cynnydd yn y cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill 2022. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ei bryder am effaith hyn ar gartrefi Cymru, ac ar gartrefi incwm is yn benodol.

Rydym yn ymwybodol o waith parhaus Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni cartref ac i fynd i’r afael â thlodi tanwydd, ac o’i huchelgeisiau i gyflymu’r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy fel modd o wella sicrwydd ynni domestig ac amddiffyn pobl rhag cynnydd annisgwyl mewn prisiau ynni. Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng presennol ym mhris ynni, mae angen gweithredu ar unwaith i gynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferth talu biliau ynni anfforddiadwy.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno cyfres o fesurau i leihau effaith y cynnydd mewn prisiau ynni ar gartrefi, gan gynnwys cynyddu taliad y Cynllun Tanwydd Gaeaf ac ehangu’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun, a rhoi ad-daliad treth gyngor i rai cartrefi. Er y gallai’r rhain fod wedi ysgafnhau’r baich i rai, nid ydynt yn debygol o fod yn llawer o gysur i’r rhai sydd eisoes yn byw mewn tlodi tanwydd ac mae’n bosibl na fyddant yn ddigon i atal y cynnydd sydyn a ddisgwylir mewn tlodi tanwydd.

Yn ychwanegol at yr uchod, rydym yn gwybod bod y gwaethaf eto i ddod, gydag ail gynnydd yn y cap ym mis Hydref 2022. Mae rhai dadansoddwyr yn rhagweld y bydd hyn yn gynnydd o 32%.

Byddem yn croesawu eglurhad gennych ynghylch sut yr ydych yn paratoi ar gyfer y cynnydd ychwanegol hwn, gan gynnwys manylion y mesurau ychwanegol rydych yn bwriadu eu rhoi ar waith i gynorthwyo teuluoedd yn ystod gaeaf a fydd, yn anochel, yn un anodd iawn.

Rydym yn cydnabod bod y prif ddulliau o sicrhau bod cymorth ariannol priodol ar gael i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau ynni yn nwylo Llywodraeth y DU. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud ei safbwynt yn glir gan ddweud bod angen codi treth ffawdelw ar elw gormodol y cwmnïau ynni mawr. Mae adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar am elw chwarterol enfawr y cwmnïau hyn, er enghraifft, gwnaeth BP elw o £4.9 biliwn, yn cryfhau'r ddadl dros godi treth o'r fath. Rydym yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gyflwyno treth ffawdelw.

Rydym yn deall bod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar fin cyhoeddi adroddiad ar dlodi tannwyd. Ni fyddem yn dymuno rhagdybio casgliadau'r Pwyllgor. Yn hytrach, rydym yn gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ategu ei adroddiad ac yn cryfhau unrhyw argymhellion i gymryd camau ychwanegol i gynorthwyo teuluoedd yn ystod yr argyfwng prisiau ynni presennol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 24 Mai fan bellaf.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith